Brîff ymarferydd creadigol			
Enw'r Ysgol	Ysgol y Graig	Cyswllt Ysgol	Lowri Roberts RobertsL777@hwbmail.net
Cyfeiriad	Ffordd y Coleg, Lôn Talwrn, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7LP	Asiant Creadigol	Ceri Williams Ceriwilliams@ynysmon.gov.uk 01248 752189
Rhif ffôn	01248 723092	Gwefan ysgol	www.ysgolygraig.co.uk

Mae Ysgol y Graig yn awyddus i benodi ymarferwyr creadigol fel rhan o gynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol, Cyngor Celfyddydau Cymru. Nod y Cynllun yr Ysgolion Creadigol Arweiniol yw hybu ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion, gan roi cyfle i ysgol ddatblygu rhaglen ddysgu arloesol a phwrpasol sydd â'r nod o wella ansawdd addysgu a dysgu.

Rydym yn chwilio am ymarferydd creadigol arloesol sydd yn arbenigo mewn celf weledol yn ogystal a ymarferydd sydd yn arbenigo mewn perfformio. Bydd yn rhaid i'r ymarferwyr a ddewiswyd ymateb i'r cwestiwn canlynol;

"Sut y gall dysgu creadigol ddatblygu llefaredd a 'r maes personol a chymdeithasol o'r cyfnod Sylfaen mewn bechgyn blwyddyn 2."

Amcan o'r prosiect

Mae'r ysgol yn awyddus i fynd a'r afael a'r maes personol a chymdeithasol gyda 13 o fechgyn blwyddyn 2.

Maent yn awyddus i ddefnyddio'r broses greadigol i annog y bechgyn i fod yn fwy cydweithredol drwy weithio gyda'i gilydd, trafod a mynegi eu teimladau. Hefyd hoffent rhoi'r sgiliau i'r bechgyn wybod sut i gyfathrebu sut meant yn teimlo yn briodol a hyderus a fydd yn gefn iddynt drwy ei gyrfa yn yr ysgol. Hoffent hefyd ddatblygu'r bechgyn i fod yn ddyfalbarhaus drwy sicrhau eu bod yn goddef ansicrwydd ac yn parhau i weithio pan mae'r dasg yn un heriol**.**

Rydym yn gobeithio gweithio gyda ymarferydd celf gweledol i ddatblygu sgiliau llefaredd drwy greu. Mae'r broses o greu celf yn gallu ein helpu i ddeallt emosiynau gwahanol ac hoffent i'r bechgyn gael y cyfle i arbrofi drwy celf a chael y sgiliau o drafod eu gwaith a'u teimladau. Mae codi hyder y bechgyn yn rhan anotod o'r prosiect felly byddai o fydd gweithio gyda ymarferydd ym maes perfformio i greu perfformiad o'r hyn meant wedi ei ddysgu o'r gweithdai creu celf. Bydd gofyn i'r ddau ymarferydd gyd-weithio a chyd-cynllunio er mwyn i'r gweithgareddau gyfatebu. Ar ddiwedd y prosiect rydym yn awyddus i gael digwyddiad yn yr ysgol lle bydd cyfle i rhannu yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu gyda staff, disgyblion a theuluoedd.

Manyleb person:

Mae Ysgol y Graig yn awyddus i benodi dau ymarferwr creadigol ym maes celf gweledol a pherfformio. Bydd yn hanfodol i'r ddau ymarferydd gyd weithio i sicrhau bod y ddau elfen o'r prosiect yn cyd fynd. Fe ystyrir ceisiadau gan bartneriaethau.

Mae'n bwysig er mwyn i'r prosiect fod yn llywddianus y gall yr rhai sydd yn llwyddianus gydweithio gyda athrawon a staff yr ysgol a chreu awyrgylch o ddysgu greadigol. Gofynnwn i ymgeiswyr fod â phrofiad o weithio gyda plant ac o ysbrydoli creadigrwydd mewn eraill.

Dyma yr hoffai disgyblion Ysgol y Graig weld mewn ymarferydd creadigol:
Person:

Hapus	Cyflym	Yn dda am chwarae gemau
Cŵl	Helpu	Neis
Gweithgar	Gwneud gwaith blêr	Caredig
Cyffroes	Swnllyd	Gallu bod yn ddrygionus

Amodau

Bydd angen i'r ymarferwyr fod ar gael i weithio yn yr ysgol yn ystod Tymor y Gwanwyn am gyfnod o 5 sesiwn yr un (unwaith yr wythnos fyddai'n gweithio orau) Bydd yr union ddyddiadau ac amserlen yn cael eu trafod gyda'r ymarferydd llwyddianus.

Bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddianus feddu ar DBS cyfredol. Bydd hefyd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddianus fod â pholisi yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Bydd rhaid i chi gydymffurfio â pholisi dioglewch plant yr ysgol a chyd weithio gyda'r swyddog lles. **Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg yn hanfodol i'r rôl hwn.**

Ffi:

Bydd taliad o £250 y diwrnod i'r ymarferwyr a chyfraniad tuag at costau teithio. Rydym yn rhagweld y bydd fyny at 9 diwrnod o waith yr un i'r ddau ymarferydd (bydd hyn yn cynnwys 7 x diwrnod o gyswllt gyda'r myfyrwyr unrhyw waith paratoi, diwrnodau arfarnu a sesiwn dathlu)

Mae £500 ar gyfer deunyddiau.

Mae'n hanfodol i'r ymarferwyr creadigol llwyddianus fod ar gael i fynychu hyfforddiant yn Venue Cymru unai 21 & 22 neu 23 a 24 o Dachwedd 2017. Bydd yr hyfforddiant yn rhad ac am ddim ac fe delir costau tuag at gostau teithio.

Os ydych wedi mynychu'r hyfforddiant hwn o'r blaen yna nid oes angen i chi ei fynychu eto.

Sut i gylwyno cais	
Cysylltwch â Lowri Roberts, RobertsL777@hwbmail.net erbyn y dyddiad cau gyda'r manylion canlynol: • Llythyr cais yn esbonio pam yr hoffech weithio gyda'r prosiect. • CV cyfredol • Engreifftiau o waith creadigol blaenorol	
Dyddiad Cau **12:00 dydd Llun y 13eg o Dachwedd.**	Cyfweliadau Bydd y cyfweliadau yn cael eu cynnal ar fore **dydd Mercher y 15fed o Dachwedd**, 2017 yn Ysgol y Graig, Llangefni. Bydd y cyfweliad yn para oddeutu 20 munud i gynnwys gweithgaredd greadigol byr a sesiwn o gwestiynnau gan y staff a rhai o'r disgyblion.
Rhagor o wybodaeth:	
Am fwy o fanylion gallwch gysylltu â: Lowri Roberts – Ysgol y Graig RobertsL777@hwbmail.net Neu Ceri Williams – Asiant creadigol Ysgol y Graig 01248 752189 CeriWilliams@ynysmon.gov.uk	